

---

# BWLETIN POLISI CYTÛN

## CYTÛN POLICY BULLETIN

JUNE 2014 / MEHEFIN 2014

---



### CARTREFI CYMRU YN CYNHYRCHU LLAI

### O WASTRAFF AC YN AILGYLCHU MWY NAG ERIOED

Yn ôl yr ystadegau diweddaraf, mae cyfraddau cartrefi o ailgylchu yn parhau i godi o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, ac mae swm y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan gynghorau a chartrefi yn lleihau.

Rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2013, cododd cyfraddau aildddefnyddio, ailgylchu a chompostio trefol i 53%, o gymharu â 51% ar gyfer yr un cyfnod y llynedd. Am y deuddeg mis hyd at fis Rhagfyr 2013, y gyfradd oedd 54%, cynnydd o 2 bwynt canran o gymharu â'r un cyfnod hyd at fis Rhagfyr 2012. Fel arfer, mae'r cyfraddau ailgylchu ychydig yn is yn ystod misoedd y gaeaf nag ym misoedd yr haf, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y ffigurau hyn, gyda'r chwarter blaenorol yn 2013 yn gweld cyfraddau ailgylchu o 57%.

Mae Llywodraeth Cymru yn helpu cynghorau i gyrraedd eu targedau ailgylchu, a datblygu gwasanaethau casglu gwastraff effeithlon, drwy'r Rhaglen Newid Gydweithredol, a fydd yn darparu £4 miliwn yn ychwanegol o fuddsoddiad i gynghorau Cymru eleni.

Mae pob cyngor yng Nghymru yn cynnig gwasanaeth ailgylchu gwastraff bwyd hefyd, sy'n cyfrannu at gyfraddau ailgylchu uchel yng Nghymru, ac sy'n eu gwneud yn gyfraddau ailgylchu gorau'r D.U.

*Mae'n bosib gweld y canlyniadau [yma](#).*

### TALIADAU AR-LEIN I FFERMYDD

**Dywedodd Alun Davies, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, ei fod yn hapus iawn bod blwyddyn gyntaf y gwasanaethau ar-lein ar gyfer taliadau i ffermydd wedi bod yn llwyddiannus**

Cafodd y system newydd ei defnyddio gan gyfanswm o bron i draean o ffermwyr Cymru yn ei blwyddyn gyntaf. Mae dros 5500 o ffermwyr Cymru wedi croesawu gwasanaeth ar-lein newydd Llywodraeth Cymru, sy'n nifer llawer uwch nag a ddisgwyliwyd. Dywedodd y Gweinidog fod 5569 o ffermwyr neu asiantiaid wedi dewis defnyddio gwasanaeth ar-lein

newydd Taliadau Gwledig Cymru i gyflwyno Ffurflen eu Cais Sengl (SAF) ym mlwyddyn gyntaf gweithredu'r system, ac roedd hyn yn cyfateb i 32% o'r ceisiadau oedd wedi dod i law hyd yma.

Dywedodd y Gweinidog y byddai'r system newydd yn helpu i leihau camgymeriadau yn ystod y cam ymgeisio, gan ddiogelu ffermwyr ymhellach rhag unrhyw oedi na rhag unrhyw gosbau. Mae llwyddiant y system yn enghraifft arall o ymateb cadarnhaol Llywodraeth Cymru i adolygiad Gareth Williams, 'Hwyluso'r Drefn', sy'n amcanu i leihau biwrocratiaeth i ffermwyr yng Nghymru a chaniatáu iddyn nhw ganolbwyntio mwy ar y gwaith ffermio.

Dywedodd y Gweinidog ei fod yn disgwyl i holl brosesau ymgeisio taliadau PAC fod ar gael ar-lein yn unig erbyn 2016, ac fe fyddai'n gofalu bod y gefnogaeth angenrheidiol ar gael i atal unrhyw un rhag cael ei adael ar ôl wrth i'r gwasanaethau gael eu symud i fod ar-lein. Dywedodd hefyd y byddai cymorthfeydd lleol yn cael eu sefydlu fel y gallai ffermwyr ddefnyddio'r system newydd mewn amgylchedd sy'n eu cefnogi a chael budd o dderbyn hyfforddiant ymarferol.

## **CYHOEDDI BUDDSODDIAD O £1BN YN SEILWAITH CYMRU**

**Mae'r Gweinidog Cyllid, Jane Hutt, wedi nodi manylion buddsoddiad o £1bn gan Lywodraeth Cymru i brosiectau seilwaith pwysig rhwng 2017-18 a 2021-22.**

Fe fydd y buddsoddiad, sydd â'r potensial o greu 6,500 o swyddi, yn rhoi hwb cynaliadwy i economi Cymru, ac fe fydd yn defnyddio modelau buddsoddi arloesol newydd.

O ganlyniad i doriadau ar wariant cyhoeddus gan Lywodraeth y D.U. mae gostyngiad o 10% wedi bod yng Nghyllideb Cymru ers 2010. Mae Gweinidogion Cymru wedi bod yn ceisio datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o ariannu buddsoddiadau seilwaith, yn cynnwys £340 miliwn ar gyfer Menter Benthycia Llywodraeth Leol, a £125 miliwn ar gyfer y Grant Cyllid Tai.

Fe fydd Llywodraeth Cymru'n ategu ei chyllideb gyfalaf gyda benthycia uniongyrchol ac offerynnau ariannol arloesol â chyllid refeniw i fuddsoddi mewn nifer o gynlluniau blaenoriaeth pwysig, fel sy'n cael ei amlinellu yn y [Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru \(WIIP\)](#). Mae'r buddsoddiadau newydd yn cynnwys:

- Rhannau 5 a 6 yr A465 (Dowlais Top i Gyffordd yr A470, a Chyffordd yr A465 / A470 i Hirwaun) - £300m: mae'r buddsoddiad hwn yn golygu bod disgwyl i'r A465 fod wedi ei gwneud yn ffordd ddeuol ar ei hyd erbyn 2020.
- Canolfan Gofal Canser Arbenigol newydd a fydd yn cynyddu capasiti Ymddiriedolaeth Felindre - £210m: fe fydd hyn yn golygu adeiladu ysbyty newydd sbon i roi mynediad i gleifion canser at wasanaethau o ansawdd uchel a fydd i'w cymharu â'r goreuon yn y byd.

Hefyd, fe fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud defnydd llawn o'r £500m o fenthyca uniongyrchol a fydd ar gael i Weinidogion oherwydd Bil Cymru.

Ers ei gyhoeddi, mae'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru wedi darparu sylfaen strategol ar gyfer buddsoddiad ychwanegol mewn seilwaith sy'n werth tua £2 biliwn – gan gynnwys buddsoddiadau ym Mand Eang y Genhedlaeth Nesaf, Ysgolion yr 21ain Ganrif, a Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, yn ogystal â buddsoddiadau i roi cymorth ariannol i fentrau bach a chanolig, tai, ac effeithlonrwydd ynni domestig.

Dros gyfnod o ddeg mlynedd rhwng 2012 a 2022, mae'n golygu y bydd Llywodraeth Cymru wedi rhoi hwb o tua 9% bob blwyddyn i gyllid seilwaith.

## **CYNLLUN PEILOT AR GYFER PROFI AMSEROEDD AROS CLEIFION Â CHANSER**

**Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bod cynllun peilot ar waith i brofi ffyrdd newydd o fesur amseroedd aros ar gyfer cleifion â chanser.**

Bydd un llwybr ar gyfer pobl y tybir bod canser arnyn nhw yn cael ei dreialu, ei fesur a'i gymharu â'r system gyfredol. Ar hyn o bryd, mae cleifion yn cael eu rhoi ar un o ddau lwybr - llwybr 'achos brys' 62 diwrnod, neu lwybr 'nad yw'n achos brys' 31 diwrnod, yn ôl pryd y cafodd y claf ddiagnosis yn y lle cyntaf bod canser arno ef neu hi.

Bydd y mesurau newydd, sydd wedi eu datblygu gan glinigwyr canser, yn cael eu profi yn ardaloedd chwech o'r Byrddau Iechyd yng Nghymru, ac fe fyddan nhw'n galluogi'r GIG i gael darlun mwy cywir o amseroedd aros gwirioneddol, ac yn cyflymu'r driniaeth mewn nifer o achosion.

Dechreuodd y cynllun peilot ar 1 Mai, a bydd yn parhau hyd 30 Medi. Fe fydd y system gyfredol o ran targedau 62 a 31 diwrnod yn parhau i fod yn ffon fesur ar gyfer perfformiad, ac yn parhau i gael eu nodi.

## **Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU I'W GWEDDNEWID YN SYLWEDDOL YN 2016**

**Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas, y bydd deddf newydd radical, a fydd yn trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru, yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.**

Bydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol yr wythnos ddiwethaf, yn trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau

cymdeithasol eu darparu drwy ganolbwytio ar sicrhau canlyniadau sy'n angenrheidiol i hybu lles y person – fel unigolyn, fel teulu, ac fel rhan o'r gymuned. Bydd y Ddeddf yn cyflwyno fframwaith statudol cadarn, am y tro cyntaf, ar gyfer amddiffyn oedolion, ac mae wedi darparu trefniadau ar gyfer arweiniad cenedlaethol cryf er mwyn diogelu pobl. Bydd y Ddeddf hefyd yn sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at wybodaeth glir, cyngor a chymorth, ac fe fydd llais y bobl a'u hawliau'n ganolog i'r penderfyniadau ynghylch eu gofal a'r cymorth y byddan nhw'n ei gael.

Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog y caiff Bil newydd i ddiwygio'r drefn reoleiddio ac archwilio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru ei gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Chwefror 2015. Bydd y Bil Rheoleiddio ac Archwilio newydd yn ailffocysu'r gwaith o reoleiddio gofal cymdeithasol tuag at ganlyniadau priodol i'r bobl.

## **CYFREITHIAU CRYFACH AR HAWLIAU PLANT YN DOD I RYM**

**Daeth dyletswyddau cyfreithiol newydd i rym sy'n rhoi dyletswydd ar bob un o Weinidogion Llywodraeth Cymru i ystyried hawliau plant, wrth i'r gweinidogion wneud eu gwaith, yn cynnwys wrth benderfynu ar wariant, llunio polisïau, neu newid y gyfraith.**

Yn 2012, Cymru oedd yr unig wlad yn y Deyrnas Unedig, ac un o'r ychydig wledydd yn y byd, i fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) pan bleidleisiodd Aelodau'r Cynulliad yn unfrydol o blaid mesur a oedd yn torri tir newydd, sef Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Cytundeb ar hawliau dynol yw'r Confensiwn, sy'n amlinellu hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, iechyd a diwylliannol plant o dan 18 oed. O dan y cytundeb hwn, mae plant yn cael eu hystyried yn grŵp bregus sydd angen hawliau ychwanegol i'w hamddiffyn, ac mae'n sicrhau eu bod yn gallu ymwneud â materion sy'n effeithio arnyn nhw.

Ers y bleidlais yn 2012, dim ond ystyried yr UNCRC wrth ddatblygu polisïau neu ddeddfwriaethau newydd a/neu ddiwygio hen rai yr oedd yn rhaid i Weinidogion Cymru ei wneud. O hyn ymlaen, gan fod y dyletswyddau cyfreithiol ychwanegol newydd wedi dod i rym, fe fydd yn rhaid i Weinidogion Cymru ystyried hawliau plant ym mhob agwedd ar eu gwaith, popeth o benderfynu ar gyllidebau i ddatblygu polisïau a rhoi arweiniad i gyrff cyhoeddus.

Er mwyn adlewyrchu'r trefniadau newydd hyn, ac er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau cyfreithiol, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi Cynllun Hawliau Plant ar waith.

**SWYDDOG POLISI**

**CYTŪN – EGLWYSI YNGHYD YNG NGHYMURU**

**029 2046 4378**

**[geraint@cytun.org.uk](mailto:geraint@cytun.org.uk)**